Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Llanandras

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Llanandras yn amgylchedd cynhwysol ac anogol lle caiff pob disgybl ei werthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn mynychu'n rheolaidd ac yn dangos lefelau uchel o barch at staff ac ymwelwyr. Er bod perthnasoedd rhwng oedolion a disgyblion yn gryf a bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am bryderon ynghylch diogelu yn addas o gadarn.

Mae'r ysgol wedi cynllunio cwricwlwm eang a diddorol sy'n cefnogi gwybodaeth disgyblion am eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae'r ysgol wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'i chymuned ac mae disgyblion yn elwa ar ystod ddiddorol o ymweliadau, ymwelwyr a chyfleoedd rheolaidd i drafod materion moesol a chymdeithasol. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gwersi gyda brwdfrydedd ac yn awyddus i ddysgu. Er bod yr ysgol yn elwa ar amgylchedd awyr agored helaeth, ni chaiff ei ddefnyddio'n ddigon da ar hyn o bryd.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau siarad, darllen a digidol. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson, ac mewn tua hanner y gwersi, mae disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Er bod staff yn hyrwyddo amgylcheddau dysgu tawel ac yn defnyddio ystod fuddiol o gwestiynau yn ystod gwersi, mae lefel yr her yn amrywiol, ac nid yw'r adborth yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gwneud cynnydd digonol yn eu dysgu ac nid ydynt yn datblygu eu medrau ysgrifennu, mathemategol a rhifedd yn ddigon da dros gyfnod. Mewn dosbarthiadau iau, nid yw gweithgareddau'n adlewyrchu ethos dysgu sylfaen yn ddigon da, ac ar draws yr ysgol, nid yw profiadau bob amser yn gweddu i ystod lawn anghenion y disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol nac yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu medrau arwain.

Mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n galed i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at y Gymraeg ac maent yn frwdfrydig wrth ddysgu'r iaith.

Nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn rhoi dealltwriaeth ddigon clir i arweinwyr o wendidau mewn addysgu a dysgu. Er bod llywodraethwyr yn hynod gefnogol ac yn rheoli adnoddau'n dda, nid yw eu rôl mewn gwerthuso perfformiad yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar o argymhellion i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

A1 Mynd i'r afael â'r pryder ynghylch diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella arweinyddiaeth a chryfhau ansawdd hunanwerthuso i nodi, blaenoriaethu a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu gwella fwyaf

A3 Gwella ansawdd yr addysgu i sicrhau bod disgyblion yn cael her ac adborth effeithiol i'w helpu i wneud cynnydd cryfach yn eu dysgu

A4 Gwella medrau ysgrifennu a mathemategol disgyblion

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol i fonitro cynnydd tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025